# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 23.06.2021 AM 7.00 drost zoom

**Presennol –** Cynghorwyr
Menna Jones (Cadeirydd)
Hawys Tuff
Edgar Owen
Erddin Llwyd
Delyth Jones
Shoned Rees Griffith (cofnodi drost zoom)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng LD, Cyng ID, Cyng SB, Cyng CT, Cyng DJ

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion 19.05.2021**
Y Cyng DJ yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng HT yn eilio.
**Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 19.05.2021**
Y Cyng DJ yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng EO yn eilio
**Derbyn Cofnodion Cyfarfod Fynwent ac Eiddo 26.05.2021**
Y Cyng DJ yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng EO yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 19.05.2021**

**Materion Caeathro** –
**Ffordd Osgoi Bontnewydd** – Ar amser
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Cyng EO wedi cyfarfod a'r Swyddog o CG ar safle, maent yn edrych mewn i'r mater.
**Eisteddfod Genedlaethol -** Wedi ei wthio ymlaen erbyn hyn i 2022, bydd angen meddwl am ffyrdd i godi arian yn fuan.
**Potiau Blodau -** Aros i'r Antur Waunfawr eu gosod.

**Materion Waunfawr** –
**Tacluso Pentref –** Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.
**Ffordd Ael y Bryn a Tref Eilian –** dal ar restr y Cyngor, eto Cyng EO i gyfarfod a'r swyddog o CG i drafod.
**Ffordd Cefn Du -** tyllau yn cael eu cau yn araf.
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** - Dal i aros y Les gan Cyngor Gwynedd i'w harwyddo.

**Golau fflachio bob ochr i'r pentref –** aros i ymgynghori gyda'r Conractwyr y Ganolfan Iechyd newydd.
**Cyflymder traffic drwy'r pentref a materion eraill –** Clerc wedi anfon negas i 'Go Safe' aros ymateb.
**Parcio /Parcio ar droed ffordd -** Cyng EO wedi cael gair gyda'r Siop, wedi gofyn i'r staff barcio yn y cefn o hyn ymlaen.
**Gwefan y Cyngor Cymuned –** Aros i Smala greu cyfeiriad e-bost o'r wefan i bob Cynghorydd, Angen cadw y wefan yn gyfredol.
**Eisteddfod Genedlaethol -**. Targed y Cyngor Cymuned yw £2,000. Angen edrych ar y sefyllfa flwyddyn nesaf, ar gyfer cychwyn casglu arian tuag at yr Eisteddfod yn 2022.
**Maes Parcio drost ffordd i'r Hen Bost -** Clerc i ofyn i TB i archwilio y safle a trin os oes angen.
**Pont droed o Lon Ddwr i Tref Eilian**- y step wedi ei gwneud angen rhoid y grid yn nol ar ochr y bont.
**Potiau Blodau** - Aros i'r Antur Waunfawr osod y potiau blodau. Staff o'r Antur wedi gofyn os oes angen hysbyu Priffyrdd, Cyngor Gwynedd - Cyng EO yn mynd i holi.

**6.** **Sedd Wag -**Clerc i anfon copi o'r hysbyseb i'r Cyng MJ i holi trigolion Caeathro os oes gan rhywun ddiddordeb cyn i'r Cyngor Cymuned gyfethol erbyn y cyfarfod mis Medi.

**7.** **Gerddi Bach -** Gwaith adeiladu gan Grwp Cynefin wedi cychwyn ar safle.
Bin -.Cyngor Gwynedd wedi archebu biniau.
Aros pris ar gyfer gosod swing ar y safle, ac hefyd ar gyfer cario'n mlaen gyda'r ffens. Cyng ID yn sortio. Teulu o'r pentref wedi bod yn brysur iawn yn gweithio ar y cae chwarae, diolch iddynt.

**8.** **Safle Glyn Rhonwy –** Wedi gwrthod y cais am estyniad i'r hawl cynllunio ond heb dderbyn dim byd pellach.

**9.** **Adroddiadau**

**a.** **Lloches Bws** - Dim i'w adrodd.
**b.** **Y Fynwent -**Is-bwyllgor Fynwent ac eiddo wedi cyfarfod 26.05.2021 drost Zoom. Wedi cytuno ar Reolau i'r Fynwent, Cyng SB i rannu y copi terfynol i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Angen trafod ffioedd Fynwent yn ein cyfarfod nesaf. Wedi derbyn cais gan deulu i godi corff o'r Fynwent, Cyng EO a Cyng MJ i fynd i ymweld a partner yr ymadawedig er mwyn ei hysbysu.
**c.** **Toiled** - Dim
**ch.Llwybrau -** Dal i aros Cyngor Gwynedd
**d**. **Y Ganolfan** -Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan, Gorffennaf y 7fed am 7.30, Cyng ELL i gynrychioli y Cyngor Cymuned.
**dd.Y Gof golofn -**Trin y Coed -i gael ei wneud yn fuan.

**10.** **Materion Cynllunio**

**a.** **Ceisiadau newydd**

| **Dyddiad Cofrestru** | **Bwriad** | **Lleoliad** | **Rhif Cais** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## 11. Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd - Rhybudd cau ffordd
BHIB - yswiriant Cyngor Cymuned.- cytun o i'w dalu am flwyddyn arall, pris yn dderbyniol.
Unllais
Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad Gorchymyn gwarchod mannau Cyhoeddus / Rheoli Cwn
Cyngor Gwynedd - Adborth ymgysylltu Anhysbys diweddar
Trigolion - cyflymder traffic drwy'r pentref
Archwilwyr - Archwiliad 2020-21
Cyngor Gwynedd - Archwiliad 2020-21
Ganolfan Waunfawr - Cyfarfod blynyddol

## 12. Materion Ariannol

### 12.1 Arian wedi ei dalu allan

| | | |
|---|---|---|
| G R Services | | £35.00 |
| G R Services | | £280.00 |
| Cae Chwarae Caeathro | (6 torriad 2021/21) | |
| | (6 torriad 2021/22) | £840.00 |
| Cyflog Clerc Mai | | £294.96 (stamps £6.98, Stermat £29.99) |
| H M Revenue & Customs | | £52.00 |
| Cyflog Clerc Mehefin | | £317.00 (hadau gwair £59.00) |
| Rhodd Cadeirydd 2020-21 | | £25.00 |

### 12.2 Arian a dderbyniwyd

### 12.3 Anfonebau i'w talu

| | |
|---|---|
| BHIB - Yswiriant | £413.03 |
| Cyflog Clerc Groffennaf | £258 |
| HM Revenue & Customs | £52.00 |

## 13. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Cyfarfod nesaf – 28.07.2021

## 14. Materion Aelodau. -

Cyng EO - Dim wedi ei dderbyn
Cyng SB - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng IW - Dim wedi ei dderbyn
Cyng ELl - Dim wedi ei dderbyn
Cyng LD - Dim wedi ei dderbyn
Cyng MJ - Trigolion o'r Stad (gyferbyn a Glan Gwna) yn cwyno methu gweld i ddod i'r ffordd. Clerc yn aros i Swyddog o Cyngor Gwynedd gysylltu i drafod cael

drych

Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn

Cyng CT - Dim wedi ei dderbyn

Cyng HT - Planters blodau Waunfawr - angen caniatad Priffyrdd? Cyng EO yn mynd i holi.